Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Prif Gwnstabl Dyfed Powys

*Crynodeb o Wybodaeth Ariannol 2014/15*

(Endid Unigol)

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Prif Gwnstabl Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 pob Prif Gwnstabl yn endid unigol neu 'corfforaethau unigol' ynddynt eu hunain ar 21 Tachwedd 2012. Cyfrifon 2014/14 yw'r drydedd set o gyfrifon statudol a baratowyd o dan y trefniadau hyn.

Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 i bob corff llywodraethol gyflwyno Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Nodir fod y Cod yn cynrychioli arferion priodol.

Datganiad o Gyfrifon

Mae cyfrifon 2014/15 yn rhoi manylion pellach ynghylch materion ariannol y Prif Gwnstabl ac yn cynnwys:-

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol;** mae hyn yn nodi barn yr archwilydd annibynnol, Swyddfa Archwilio Cymru, ynghylch pa un ai a yw'r cyfrifon Prif Gwnstabl a gyflwynir yn rhoi 'safbwynt gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2014/15;
- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon;** mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl;
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;** mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu a'u defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau plismona a lleihau trosedd yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys pob cost dydd i ddydd ac incwm perthnasol ar sail croniad, yn ogystal â thrafodion sy'n mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a gwerth amcanol real buddion ymddeol a enillwyd gan weithwyr yn ystod y flwyddyn;
- **Mantolen;** mae'n dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Prif Gwnstabl ar ddyddiad y Fantolen. Gan fod Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn datgan na chaiff y Prif Gwnstabl ddal arian parod, mae asedau a rhwymedigaethau cyfredol y Prif Gwnstabl yn cael eu mantoli i ddim drwy drosglwyddiadau o fewn y grŵp rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n cael eu dileu o gyfrifon y grŵp.
- **Cynhwysir nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol** hefyd, sy'n nodi'r Datganiad o'r Polisïau Cyfrifyddu a ddefnyddir fel sail ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol a rhoi gwybodaeth bellach sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer.

Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn

Mae angen y Datganiad fel rhan o'r Cod a byddai'n dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Prif Gwnstabl; fodd bynnag, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn dal cronfeydd wrth gefn, nid oes angen y datganiad hwn;

Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Mae cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu yn cael ei ddangos yng Ngrŵp y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer Dyfed-Powys ac mae'n cael ei gynnwys hefyd yng Nghyfrifon y Prif Gwnstabl. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau gweinyddu'r cynlluniau pensiwn, a chynnal a darpariaeth briodol o'r cyfrifon perthnasol. Cyfyngir rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn y cynlluniau pensiwn i benderfyniadau a disgresiwn yn ymwneud â phensiwn ac ymddeoliad y Prif Gwnstabl, a disgresiwn o ran gweithredu fforffedu pensiwn ar gyfer pob swyddog heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau y darperir gwybodaeth gywir a diweddar i'r Swyddfa Gartref ar gyfrif pensiwn yr heddlu a rhagolygon ar gyfer y dyfodol o ran incwm a gwariant mewn perthynas â phensiynau heddlu.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cynhwysir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol o fewn y Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad yn ddogfen statudol sy'n esbonio sut mae corff y Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun, ac yn rhoi sicrwydd ynghylch y systemau rheoli mewnol y mae'r Prif Gwnstabl yn cynnal a'r modd y mae'r Prif Gwnstabl yn cynnal ei faterion.

Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n adeiladu ar flaenoriaethau'r sefydliadau sy'n cyflwyno'r gwasanaethau trosedd a phlismona yn Nyfed-Powys ar hyn o bryd. Mae'n nodi blaenoriaethau'r Comisiynydd ar gyfer ei dymor cyfredol mewn swydd:

- Atal ac ymdrin â digwyddiadau a throseddau
- Diogelu pobl sy'n agored i niwed
- Dwyn pobl i gyfiawnder
- Gwella mynediad at wasanaethau'r heddlu
- Sicrhau safonau proffesiynoldeb uchel
- Gwario'n ddoethPolice and Crime Plan Priorities

Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol i'r gyfraith ar gyfer arfer pwerau heddlu, ac i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am gyflwyno plismona effeithiol ac effeithlon, rheoli adnoddau a gwariant gan yr heddlu. Ar bob adeg, mae'r Prif Gwnstabl a'i swyddogion a'i staff yn parhau'n weithredol annibynnol o ran gwasanaethu'r cymunedau maen nhw'n gyfrifol amdanynt. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol i'r cyhoedd ac yn atebol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am gynorthwyo Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyflwyno'r strategaeth a'r amcanion a nodir yn y Cynllun.

Nododd y Comisiynydd nifer o ymrwymiadau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu mewn perthynas â gwneud data ar gael i'r cyhoedd gan eu galluogi i farnu cynnydd a wneir yn erbyn y Cynllun. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ar gael yn y cyfeiriad canlynol:

http://www.dyfed-powys.pcc.police.uk/cy/Priorities-and-Policies/Performance-Data/Performance-Data.aspx

Perfformiad Ariannol yn 2014/15 yn erbyn cyllideb refeniw'r Prif Gwnstabl

Roedd hon yn flwyddyn o drawsnewid mewn sawl ffordd ar gyfer yr Heddlu. Trosglwyddwyd pob staff heddlu o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl i gyflogaeth yr Heddlu ar 1 Ebrill 2014. Roedd yr holl staff heddlu o dan gyflogaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu cyn hynny. Yn ogystal â hyn, gweithredodd yr Heddlu'r rhaglen 'Y Cyhoedd yn Gyntaf' a oedd yn ceisio ail-alinio'r strwythurau sy'n cefnogi plismona gweithredol â'u gwneud nhw'n effeithiol â chyn lleied o adnoddau â phosibl.

Ym mis Chwefror 2014, gosododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyllideb ar gyfer y Prif Gwnstabl am y flwyddyn ariannol 2014/15 o £95.6 miliwn. Roedd hyn tua £1.8 miliwn neu 1.6% yn llai yn nhermau ariannol na'r gyllideb o £97.4 a wnaed ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Gan ystyried chwyddiant a phwysau eraill o ran costau sy'n effeithio ar y gyllideb ar gyfer 2014/15, roedd angen i'r Prif Gwnstabl gyflwyno arbedion cyllideb cylchol o £3.747 miliwn er mwyn cyflwyno sefyllfa gyllideb gytbwys.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa derfynol o ran alldro ar gyfer 2014/15 o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol a diwygiedig ar gyfer y Prif Gwnstabl. Drwyddo draw llwyddodd y

Prif Gwnstabl i gyflwyno gwasanaethau plismona ymhell o fewn y terfynau cyllideb a osodwyd ar gyfer 2014/15 ac yn wir bydd yn gyfrannu £1.850 miliwn net i gronfeydd wrth gefn.

| | Cyllideb Wreiddiol | Cyllideb Ddiwygiedig | Gwirioneddol | Amrywiant (Negyddol ar gyfer Arbed) |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau Gweithwyr - Swyddogion | 63,329 | 63,025 | 66,006 | 2,981 |
| Costau Gweithwyr – Costau Staff Heddlu | 24,653 | 24,619 | 22,614 | -2,005 |
| Costau Staff Anuniongyrchol | 2,235 | 2,213 | 1,440 | -773 |
| Costau Adeiladau | 3,259 | 3,660 | 3,533 | -127 |
| Costau Trafnidiaeth | 3,021 | 2,895 | 2,383 | -512 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 8,802 | 8,875 | 7,703 | -1,172 |
| Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract | 2,511 | 2,523 | 1,949 | -574 |
| **Cyfanswm costau gweithredu** | **107,810** | **107,810** | **105,628** | **-2,182** |
| Ychwanegu: Costau Ariannu | 793 | 1,069 | 2,448 | 1,379 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **108,603** | **108,879** | **108,076** | **-803** |
| **Incwm** | | | | |
| Grantiau'r Llywodraeth (Refeniw a Chyfalaf) | -6,844 | -6,294 | -9,494 | -3,200 |
| Ffioedd, costau ac incwm gwasanaeth arall | -3,803 | -4,443 | -4,826 | -383 |
| **Cyfanswm Incwm** | **-10,647** | **-10,737** | **-14,320** | **-3,583** |
| **Gwariant Net a ariennir gan y CHTh** | **97,956** | **98,142** | **93,756** | **-4,386** |
| Cyfraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | **-2,183** | **-2,536** | **1,850** | **4,386** |
| | **95,773** | **95,606** | **95,606** | **0** |

Mae'r adroddiad hwn ar fformat dadansoddiad goddrychol, a ddefnyddir gan reolwyr mewnol ar gyfer dibenion adrodd yn erbyn y gyllideb. Mae'r fformat hwn yn wahanol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a darperir cysoniad rhwng y ddau fformat yn Nodyn 11 i'r Cyfrifon.

Darperir esboniad cryno o'r prif amrywiadau isod:

a) *Costau Swyddogion Heddlu ac incwm grant:* Mae costau swyddogion heddlu'n uwch na'r gyllideb wreiddiol o £2.981 miliwn. Mae'r Heddlu wedi darparu swm o £3.238 miliwn fel amcangyfrif o'r costau sy'n codi o ganlyniad i benderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau, yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, i gynnal apêl yn erbyn Adran Actiwarïaid y Llywodraeth a allai gyflwyno goblygiadau o ran ffactorau cymudiad a ddefnyddir ar gyfer ymddeoliadau swyddogion heddlu rhwng 2001 a 2006. Mae'r Heddlu wedi cynnwys asesiad o'r oblygiadau cost cymudiad o'r penderfyniad yn y Cyfrif Refeniw ac ad-daliad a ddisgwylir gan y Llywodraeth i ddarparu ar gyfer y costau llawn yn erbyn y llinell incwm Grant Llywodraeth.

Heblaw am yr addasiad hwn, roedd nifer swyddogion heddlu a chyllidebau ychydig yn is na'r ffigurau a gyllidwyd ar eu cyfer yn gynnar yn y flwyddyn ariannol. Er bod recriwtio'r nifer a ddarparwyd cyllideb ar gyfer i'r sefydliad wedi'i gyflymu yn ystod y flwyddyn, roedd arbediad bychan o £257,000 yn parhau yn erbyn y pennawd hwn ar ddiwedd y flwyddyn.

b) *<u>Arbedion sy'n ymwneud â 'Y Cyhoedd yn Gyntaf':</u>*

i. <u>Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH):</u> Effeithiwyd ar y penawdau costau hyn gan y rhaglen "Y Cyhoedd yn Gyntaf" gyda rhai swyddi gwag yn cael eu dal ar agor yn gynnar yn y flwyddyn er mwyn cynnig cyfleoedd adleoliad i ddalwyr swyddi staff heddlu.

ii. *<u>Costau Staff Heddlu:</u>* Effeithiwyd ar y pennawd costau hwn yn arbennig gan weithredu strwythurau cymorth busnes a gweithredol newydd o ganlyniad i "Y Cyhoedd yn gyntaf". Anelwyd gostyngiadau a oedd yn effeithio ar gyllidebau staff heddlu at gyfanswm o £3.6 miliwn mewn blwyddyn lawn gydag £1.4 miliwn o hyn yn codi fel canlyniadau am ran o'r flwyddyn yn 2014/15.

Y brif ystyriaeth mewn perthynas â staff heddlu oedd lleihau nifer y diswyddiadau gorfodol a oedd yn deillio o "Y Cyhoedd yn Gyntaf" ac i'r perwyl hwn cadwyd nifer o swyddi'n wag er mwyn uchafu'r potensial ar gyfer cyfleoedd adleoli ar gyfer y dalwyr swydd hynny'n a oedd yn cael eu heffeithio er gwaeth. Roedd gan hyn effaith ganlyniadol ar y sefyllfa arbedion a brofwyd yn ystod y flwyddyn fel y dangosir yn y Tablau isod.

Roedd yr oedi o ran gweithredu'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff heddlu yn 2014/15 hefyd wedi cyfrannu at arbedion sylweddol yn erbyn y pennawd hwn ar gyfer y flwyddyn.

| **Mis / Sefyllfa** | **Sefyllfa (Cyllideb) Darged (Cyfwerth ag amser llawn)** | **Gwir Sefyllfa (Cyfwerth ag amser llawn)** | **Gwahaniaeth (Cyfwerth ag amser llawn)** | **Gwahaniaeth Misol (£'000)** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyn "Y Cyhoedd yn Gyntaf"** | **656** | **0** | **0** | **0** |
| Ebrill 2014 | 629 | 591 | -38 | -108 |
| Mai 2014 | 628 | 590 | -38 | -107 |
| Mehefin 2014 | 632 | 586 | -46 | -133 |
| Gorffennaf 2014 | 632 | 566 | -66 | -186 |
| Awst 2014 | 632 | 539 | -93 | -262 |
| Medi 2014 | 632 | 539 | -93 | -263 |
| Hydref 2014 | 570 | 538 | -32 | -90 |
| Tachwedd 2014 | 570 | 542 | -28 | -77 |
| Rhagfyr 2014 | 569 | 544 | -25 | -69 |
| Ionawr 2015 | 569 | 538 | -31 | -87 |
| Chwefror 2015 | 569 | 540 | -29 | -82 |
| Mawrth 2015 | 569 | 535 | -34 | -96 |
| **Amrywiad Oherwydd Symudiadau Staff** | | | | **-1,562** |
| **Effaith Dyfarniad Cyflog / Ffactorau Eraill** | | | | -102 |
| **Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu** | | | | **-341** |
| **Amrywiad Terfynol ym Mhenawdau Staff Heddlu** | | | | **-2,005** |

***Staff Heddlu – Ymadawyr net a gyllidwyd are u cyfer 2014/15 o gymharu â'r Gwir Nifer (Cyfwerth â Llawn Amser)***

| | EBR | MAI | MEH | GORF | AWST | MEDI | HYD | TACH | RHAG | ION | CHWE | MAW | 2015/16 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | -27 | -1 | 4 | 0 | 0 | 0 | -62 | 0 | -1 | 0 | 0 | 0 | -19 | -106 |
| Gwir Ostyngiadau | -65 | -1 | -4 | -20 | -27 | -0 | -1 | 4 | 2 | -6 | 2 | -5 | 0 | -121 |
| Ynghynt na'r Disgwyl | -38 | 0 | -8 | -20 | -27 | -0 | 61 | 4 | 3 | -6 | 2 | -5 | 19 | -15 |
| Gostyngiadau Misol a Gyllidwyd | | | | | | | | | | | | | | |

c) *Costau Staff Anuniongyrchol:* Cafodd yr ymagwedd a gymerwyd i uchafu cyfleoedd adleoli posibl o fewn yr Heddlu effaith sylweddol hefyd o ran lleihau costau untro sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rhaglen "Y Cyhoedd yn Gyntaf". Roedd y gyllideb ar gyfer "Y Cyhoedd yn Gyntaf" yn cynnwys senario "sefyllfa waethaf" o £1.7 miliwn mewn perthynas â gwario untro gan gynnwys costau ymddeol yn gynnar a diswyddo. Cyfanswm y costau a gafwyd oedd £0.7 miliwn gan arbed tua £1.0 miliwn yn erbyn y gyllideb. Hefyd, bu rhai arbedion ychwanegol o ganlyniad i atal cyflogaeth rhai gweithwyr asiantaeth yn ystod y rhaglen "Y Cyhoedd yn Gyntaf".

Gan hynny, mae arbedion a oedd angen eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn wedi digwydd ynghynt o lawer ac wedi costio llawer llai na ddisgwyliwyd ar adeg gosod y gyllideb. Mae "Y Cyhoedd yn Gyntaf" wedi cyfrannu £2.6 miliwn ychwanegol at y sefyllfa arbedion gyffredinol yn 2014/15 ar sail achlysurol yn fwy na'r symiau a ddeilliodd o'r cynllun lefel uwch cytunedig a oedd mewn grym ar adeg gosod y gyllideb.

*ch) Cost Ariannu:* Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu peth gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn hytrach na menthyg. Mae hyn wedi arwain at orwariant yn erbyn cyllideb yr Heddlu ar gyfer refeniw a ariennir gan gyfalaf ynghyd a gostyngiad cyfatebol mewn benthyg a chronfeydd wrth gefn.

d) *Penawdau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog:* Mae'r Heddlu wedi cyflawni arbedion cyllideb ar ddamwain yn erbyn penawdau arwyddocaol nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog gan gynnwys penawdau tanwydd a thrafnidiaeth, costau fforensig, offer gweithredol, cefnogaeth o'r awyr, costau asiantaethau, a thrwy incwm a dderbyniwyd trwy ddarparu cymorth i Heddluoedd eraill mewn perthynas â nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol. Cododd gorwariant bychan mewn perthynas â chostau adeiladau gyda rhai gwelliannau cynnal a chadw refeniw wedi'u cynllunio heb eu cwblhau'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r arbedion hefyd yn adlewyrchu'r synnwyr o ataliaeth ariannol yn cael ei arfer gan ddalwyr cyllideb a barhaodd drwy gydol y flwyddyn ariannol o ganlyniad i weithredu "Y Cyhoedd yn Gyntaf" ynghyd â chaffael ac arbedion eraill a gyflwynwyd yn 2014/15 wrth ddisgwyl sefyllfa gyllideb heriol yn 2015/16.

Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu peth gwario cyllid cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn hytrach na benthyg. Mae hyn wedi arwain at orwariant yn erbyn y gyllideb ar gyfer ariannu cyfalaf o refeniw ynghyd â gostyngiad cyfatebol mewn benthyg a chronfeydd wrth gefn.

Rhwymedigaeth Pensiynau

Mae'r Rhwymedigaeth Pensiynau a ddatgelir yn y Fantolen yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau sylfaenol sydd gan y Prif Gwnstabl yn y tymor hir i dalu buddion ymddeol o dan yr arfer priodol. Yn 2014/15 mae'r cyllid hwn werth £1,046,972 miliwn o gymharu â £883,923 miliwn yn 2013/14. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y gwerth net fel y'i cofnodir yn y Fantolen. Mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r rhwymedigaeth yn cynnwys cyfraniad pensiwn gan y cyflogwr o 24.2% ar gyfer swyddogion heddlu ac 11.6% ar gyfer staff yr heddlu, gyda'r gwir bensiynau a chyfandaliadau a gymudwyd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu, a gyllidir gan y Swyddfa Gartref drwy'r Comisiynydd.

Eitemau eithriadol o Incwm a Thraul

Caiff eitemau eithriadol eu datgelu a'u disgrifio ar wahân yn y Datganiad o Gyfrifon lle bo angen gwneud hynny er mwyn esbonio perfformiad ariannol y Prif Gwnstabl yn glir. Mae eitemau a adroddir fel rhai eithriadol yn eitemau perthnasol o incwm a thraul sydd wedi'u dangos ar wahân oherwydd arwyddocâd eu natur neu faint. Nid oes eitemau eithriadol o incwm a thraul wedi'u nodi yn 2014/15.

Newidiadau Sylweddol mewn Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r diwygiad i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn 2014 wedi ychwanegu gofynion newydd o ran datganiadau o gydnabyddiaeth. Cydymffurfiwyd â'r rhain yn llawn. Mae gofynion cyfrifyddu newydd hefyd wedi'u dilyn am y flwyddyn gyntaf mewn perthynas â chyfrifo ar gyfer cydweithio. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn y Nodiadau i'r Cyfrifon.

Newidiadau Pwysig mewn Swyddogaethau Statudol

Roedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o gyflogaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyflogaeth y Prif Gwnstabl ar 1 Ebrill 2014. Cytunwyd ar Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Roedd swyddogion a staff yr heddlu eisoes o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl. Gan hynny, nid oedd y trosglwyddiad hwn yn cael unrhyw effaith mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon yn 2014/15.

Digwyddiadau Materol ar ôl y Dyddiad Adrodd

Mae'r Heddlu wedi darparu ar gyfer oblygiadau ariannol posibl penderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, i gynnal apêl yn erbyn Adran Actiwarïaid y Llywodraeth a allai gyflwyno goblygiadau o ran ffactorau cymudiad a ddefnyddir ar gyfer ymddeoliadau swyddogion heddlu rhwng 2001 a 2006. Er y disgwylir canllawiau a fydd yn galluogi ymgymryd â'r union gostau, mae'r heddlu wedi cyflawni cyfrifiad i amcangyfrif yr atebolrwydd posibl yn erbyn y Cyfrif Pensiwn ar hyn o bryd. Codwyd llog yn erbyn Cyfrifon y Prif Gwnstabl. Mae'r Heddlu hefyd wedi cynnwys ad-daliad incwm a ddisgwylir gan y Llywodraeth er mwyn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn.

Taliadau Dewisol

Mae mater wedi codi'n genedlaethol yn ystod 2013/14 sy'n codi pryderon ynghylch cyfreithlondeb rhai lwfansau dewisol a dalwyd i nifer bychan o uwch swyddogion mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys Heddlu Dyfed Powys. Nododd datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fod sylw yn y wasg yn genedlaethol wedi codi pryderon ynghylch taliadau dewisol o'r fath. Mae hyn oherwydd na gyfeiriwyd at y taliadau o dan ddarpariaethau penodol Rheoliadau'r Heddlu 2003.

Ymddengys fod cyngor cyfreithiol pellach a gafwyd gan y Comisiynydd yn cadarnhau y gallai'r taliadau fod yn anghyfreithlon. Gweithredwyd yn gyflym er mwyn atal unrhyw lwfansau dewisol ychwanegol rhag cael eu talu hyd nes y bydd y sefyllfa gyfreithiol wedi'i egluro'n llawn. Roedd rhai o'r taliadau hyn yn ymwneud â symiau a dalwyd yn 2013/14 a thynnir sylw at rain yn Nodyn 14 i'r Cyfrifon, Tâl Swyddogion. Mae'r mater yn parhau.

Diwygio Pensiynau

Ym mis Mawrth 2011 comisiynwyd yr Arglwydd Hutton gan y llywodraeth i gynnal adolygiad annibynnol i ddyfodol pensiynau'r sector cyhoeddus oherwydd bod pobl yn byw yn hŷn. Gan fod costau pensiwn wedi cynyddu o draean yn ystod y deng mlynedd diwethaf, daeth i'r casgliad nad yw'r cynlluniau cyfredol yn ddigon cadarn i fod yn gynaliadwy.

Felly, mae'r cyflwynodd y llywodraeth Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol newydd o fis Ebrill 2014 a Chynllun Pensiwn Heddlu newydd o fis Ebrill 2015. Y prif newidiadau yw:

- Symud o gynllun cyflog terfynol i gynllun Cyfartaledd Enillion Gyrfa wedi'i Ailbrisio
- Yr oed pensiwn arferol ar gyfer swyddogion yr heddlu fydd 60 tra bydd oed pensiwn arferol staff yr heddlu wedi'i gysylltu â'r Oed Pensiwn Gwladol

- Bydd cyfartaledd cyfraniad yr aelodau yn cynyddu gyda'r rheiny sy'n ennill mwy yn talu cyfraniadau uwch nag y maent ar hyn o bryd

Bydd y newidiadau a amlinellir uchod yn symud baich y gost o'r cyflogwr (sef y trethdalwyr yn y pen draw) i'r gweithiwr, gan sicrhau bod pensiynau yn fwy teg a chynaliadwy yn y dyfodol.

Yn 2014/15, bydd y Prif Gwnstabl yn pennu oblygiadau ariannol yr uchod yn ei ragolwg Ariannol Tymor Canolig. i benderfynu goblygiadau ariannol yr uchod ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Effaith yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol ar y Prif Gwnstabl

O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys yn gyfrifol am bennu cyllideb i'r Prif Gwnstabl a Heddlu Dyfed Powys. Hefyd, mae'n gyfrifol am bennu asedau a chyllid i'r Prif Gwnstabl ac am osod y praesept ar gyfer yr ardal Heddlu. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n derbyn Grant Heddlu'r Swyddfa Gartref ac arian gan Lywodraeth Cymru


Roedd y setliad grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 yn arbennig o heriol, gyda gostyngiad mewn cyllid o 5.1% yn cael ei weithredu i grantiau canolog. Gweithredodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ostyngiad yn y lefel treth gyngor ar fand D o -5% ar gyfer y flwyddyn gyda diffyg cylchol yn y gyllideb o £3.0 miliwn yn cael ei ariannu drwy weithredu cronfeydd wrth gefn.

Cyhoeddwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cynnwys y cyfnod o 2015/16 i 2018/19 ochr yn ochr â'r gyllideb ar gyfer 2015/16 ac mae hyn yn dangos ansicrwydd sylweddol mewn perthynas â'r cyllid fydd ar gael i'r Heddlu yn ystod y cyfnod hwn.

Effeithir ymhellach ar y sefyllfa ariannol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2015/16 gan benderfyniadau Gweinidogion y Swyddfa Gartref o gwmpas methodoleg fformiwla ariannu, canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn ogystal â phenderfyniadau lleol a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar y praesept a blaenoriaethau plismona. Yn ogystal, gallai rhai cynyddiadau cost sylweddol godi o Ebrill 2016 o ganlyniad i newidiadau i Yswiriant Gwladol sydd wedi'u trefnu fel rhan o Ddiwygiadau Pensiynau Llywodraeth ehangach. Gallai hyn ychwanegu tua £1.3 miliwn i ofyniad cyllideb y Prif Gwnstabl yn 2016/17.

Nodwyd gofyniad arbedion o £13.315 miliwn yn y blaen sefyllfa gyllideb er waethaf cynnwys tybiaeth cynnydd praesept o 5% yn 2017/18 a 2018/19 gyda thua £4.8 miliwn o hyn yn ofynnol erbyn 2016/17.

Mae'r Heddlu'n disgwyl her ariannol sylweddol pellach dros y blynyddoedd i ddod ac mae posibilrwydd y bydd nifer o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn effeithio'n sylweddol ar staff a swyddogion a / neu wasanaethau fel yr amlygir yn y siart isod:




O ystyried yr ansicrwydd sylweddol o ran y sefyllfa ariannu yn y dyfodol, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cynnal trafodaethau o gwmpas cynllunio ar gyfer arbedion pellach o ran costau ar gyfer y dyfodol drwy amrediad o fesurau.

Ar adeg gosod cyllideb 2015/16, roedd gofyniad i leihau costau o o leiaf £13.3 miliwn ar gyfer y cyfnod 2016/17 i 2018/19. Roedd gan yr Heddlu gynlluniau cadarn mewn grym ar adeg gosod y gyllideb ar gyfer 2015/16 i gyflwyno £6.2 miliwn drwy waith yn cael ei gyflawni gan y Comisiynydd a'r Heddlu gan adael diffyg o £7,1 miliwn dros y cyfnod.

Mae ymarfer yn cael ei gynnal gan uwch arweinwyr yr Heddlu i ddiweddaru'r Cynllun Lleihau Costau i ystyried gweithgareddau a chyfleoedd lleihau costau pellach sydd wedi'u datblygu mewn misoedd diweddar. Mae'r gostyngiadau cost a geisir ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn arbennig o heriol.

Mae'n amlwg bod cynlluniau cyfredol wedi'u gweithredu'n llwyddiannus a fydd yn galluogi'r heddlu i gydbwyso cyllidebau ar gyfer 2015/16 fodd bynnag bydd angen gostyngiadau cost sylweddol pellach ar ôl Ebrill 2016 os yw tybiaethau ariannu'n profi'n gywir. Pryderir fwyfwy y bydd angen i'r rhain ganolbwyntio ar benderfyniadau anodd lleihau gwario gweithredol yn erbyn gweithredol gan y bydd strwythurau cymorth wedi'u hoptimeiddio i fod yn effeithiol a chyn lleied o adnoddau â phosibl o dan "Y Cyhoedd yn Gyntaf" a thrwy gynigion cydweithio pellach.

Y tu hwn i heriau "Y Cyhoedd yn Gyntaf", mae'r Heddlu'n parhau â rhaglen brysur o newid a gwella. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen gwella parhaus i fod yn deneuach a darparu gwelliannau ac arbedion cost pellach i'n prosesau, ynghyd â TGCh, Ystadau a rhaglen buddsoddi cyfalaf data symudol sy'n digido nifer o'n gweithdrefnau plismona gweithredol sy'n seiliedig ar bapur ar hyn o bryd. Mae'r rhaglenni gwaith hyn yn mynd rhagddynt yn dda ac yn cyflwyno gwir fanteision i'r ffordd rydyn ni'n gweithio. Cynhwysir manylion llawn am ariannu a gwario cyfalaf yn Natganiadau Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.